# Cofnodion y Bwrdd wedi'u Cadarnhau

| | |
|---|---|
| **Teitl y Cyfarfod:** | Cyfarfod Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru – Cyhoeddus |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | Dydd Iau, 17 Mai 2018<br>Canolfan Catrin Finch, Wrecsam |
| **Aelodau'r Bwrdd yn bresennol:** | Diane McCrea (Cadeirydd)<br>Dr Madeleine Havard (Dirprwy Gadeirydd)<br>Andy Middleton (Cadeirydd Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig)<br>Paul Williams (Cadeirydd y Pwyllgor Pobl a Thaliadau Cydnabyddiaeth)<br>Nigel Reader<br>Zoë Henderson<br>Dr Ruth Hall<br>Howard C. Davies<br>Elizabeth Haywood<br>Clare Pillman (Prif Weithredwr) |
| **Yn bresennol** | Gareth O'Shea (Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau'r De)<br>Catherine Love (Cyfarwyddwr Gofal Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Gwybodaeth)<br>Ceri Davies (Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu)<br>Tim Jones (Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau'r Gogledd)<br>Niall Reynolds (Cyfarwyddwr y Portffolio Trawsnewid)<br>Howard Davies (Pennaeth Llywodraethu a Chynllunio)<br>Kevin Ingram (Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol)<br>Mark Hughes (Rheolwr Perfformiad, Llywodraethu)<br>Bob Vaughan (Rheolwr Ffermio Tir a Rheoli Coedwigoedd yn Gynaliadwy) ar gyfer Eitem 3<br>Brian Pawson (Uwch-gynghorydd Amaethyddol) ar gyfer Eitem 3<br>Anthony Randles (Arweinydd y Tîm Rheoli Amgylcheddol) ar gyfer Eitem 2<br>Siân McGregor-Andrew (Swyddog Rheoleiddio Diwydiant, Gogledd Cymru) ar gyfer Eitem 2<br>Jenny Rees-Jones (Swyddog yr Amgylchedd, Adnoddau Dŵr) ar gyfer Eitem 2<br>Annie Payne (Swyddog Cynllunio Busnes a Pherfformiad Cymru) |

# Cofnodion y Bwrdd wedi'u Cadarnhau

**Ysgrifenyddiaeth:** Noemi Maria Donigiewicz
Rachel Rees

## 1. Busnes Safonol y Bwrdd

1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

**Ymddiheuriadau**

2. Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Karen Balmer, Chris Blake ac Ashleigh Dunn.

**Datganiadau o Fuddiannau**

3. Ni nodwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau newydd.

## 2. Cyflwyniad ar Faterion Lleol

4. Ymunodd Anthony Randles, Jenny Rees-Jones a Siân McGregor â'r Bwrdd a gwneud cyflwyniad ar faterion a gweithgareddau lleol, a oedd yn canolbwyntio ar gwmpas helaeth y gweithgareddau o fewn cylch gwaith y tîm.

5. Roedd testunau a gyflwynwyd i'r Bwrdd yn cynnwys:

- Diffyg cydymffurfio a dirwy Ystad Ddiwydiannol Llai
- Y ffyrdd mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn canolbwyntio ar reoleiddio diwydiant
- Rhywogaethau gwarchodedig a rhywogaethau goresgynnol gydag 800 o safleoedd y gwyddys amdanynt
- Rheoleiddio gwastraff
- Coedwig Ffosilau Brymbo, a oedd yn cael ei defnyddio fel safle gweithiau dur ynghynt, sydd bellach yn atyniad i ymwelwyr o'r radd flaenaf
- Gwarchod rhywogaethau, datblygu a safleoedd adeiladu
- Amddiffyn yr amgylchedd trwy gydsyniad, megis datganiadau diogelwch ac argyfwng, asesiadau risg, rhestr o sylweddau, a chynlluniau safle a draenio

6. Gwnaeth y tîm hefyd drafod rheoli perygl llifogydd, gan dynnu sylw at wyliadwriaeth ac ymdrechion staff Cyfoeth Naturiol Cymru wrth iddynt sicrhau bod y cyhoedd yn ddiogel. Mae ymchwil gan staff Cyfoeth Naturiol Cymru wedi caniatáu dealltwriaeth well o'r perygl o lifogydd llanwol, sydd yn ei thro wedi arwain at ddealltwriaeth well o lifogydd mewn cymunedau lleol, rheoli llifogydd yn y tymor hir a chynllunio rheoli tir.

7. Siaradodd y tîm am bwysigrwydd dalgylch Afon Dyfrdwy. Mae'r dalgylch yn ymestyn rhwng Cymru a Lloegr ac mae'n ffynhonnell dŵr yfed ar gyfer dros dair miliwn o bobl. Nid yw'r statws ecolegol a chadwraeth yn ffafriol ar hyn o bryd ac, felly, mae staff Cyfoeth

Naturiol Cymru yn canolbwyntio ar sicrhau newidiadau cadarnhaol trwy weithio gyda nifer o bartneriaid a dealltwriaeth gilyddol o nodau amgylcheddol.

8. Trafododd y Bwrdd berthnasedd y cyflwyniad a thynnu sylw at faint o waith a oedd ei angen i sicrhau bod y prosiectau a oedd wedi cael eu trafod yn rhedeg yn esmwyth. Nododd y Bwrdd nad oedd y cyhoedd bob amser yn ymwybodol o fentrau o'r fath, ac y byddai codi ymwybyddiaeth yn gadael i bobl weld faint mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei wneud i amddiffyn yr amgylchedd.

9. Trafododd y Bwrdd rannu hanesion cadarnhaol gan y gallent fod yn enghraifft berffaith o rywbeth cyffyrddadwy sy'n dangos agwedd ac ymdrechion Cyfoeth Naturiol Cymru.

10. Nododd y Bwrdd nad digwyddiadau fel y llifogydd yn Llanelwy a ddylai fod y prif bethau sy'n sbarduno newid, ond bod rhagweld trafferthion posibl a bod yn rhagweithiol yn allweddol i sicrhau diogelwch ac arloesedd.

11. Diolchodd y Bwrdd i'r tîm am eu hymdrechion beunyddiol yn ogystal â'r cyflwyniad.

### 3. Cyfeiriad Strategol Polisi Amaethyddol a gwaith is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar lygredd amaethyddol
### NRW B B 17.18

12. Cyflwynodd Robert Vaughan a Brian Pawson y papur i'r Bwrdd – gan nodi bod gwaith is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru yn enghraifft ardderchog o'r ffyrdd newydd o weithio sy'n cael eu sefydlu ar hyn o bryd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd. Mae meithrin dealltwriaeth ac ymddiriedaeth gilyddol ymysg partneriaid Fforwm Rheoli Tir Cymru wedi darparu amgylchedd addas ar gyfer datblygu ffyrdd newydd o feddwl ynghylch lleihau maint llygredd amaethyddol (ac yn y pen draw ceisio ei ddileu).

13. Cyflwynwyd adroddiad interim gan is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru i Ysgrifennydd y Cabinet yn gynnar ym mis Ebrill, ac fe'i cyhoeddwyd.

14. Canmolodd y Bwrdd safon uchel yr adroddiad interim a phawb a oedd yn rhan o'r gwaith o'i gyhoeddi, gan gynnwys sefydliadau partner Fforwm Rheoli Tir Cymru, yn ogystal â staff Cyfoeth Naturiol Cymru. Nododd y Bwrdd yr angen i barhau i weithio gyda ffermwyr, wrth barhau i gofio'r angen am ragor o gyngor, cymhellion, datblygu'r fenter wirfoddol a arweinir gan ffermwyr, ategu gwaith rheoleiddio, a rhagor o gydweithio ynghylch arloesedd. Mae ymgysylltu ar lefel leol yn allweddol i godi ymwybyddiaeth a lefel yr uchelgais ledled Cymru.

15. Nododd y Bwrdd fod gwaith Fforwm Rheoli Tir Cymru yn dal i fod ar gam cynnar a'i fod yn drwm o ran adnoddau, ond bod arwyddion cynnar yn awgrymu y gallai ddarparu astudiaeth achos o arferion da.

16. Gwnaeth y Bwrdd hefyd drafod y cyd-destun polisi ehangach a sut y gellid defnyddio cyfleoedd sy'n codi yn sgil Brexit i annog newidiadau cadarnhaol i'r gwaith o reoli adnoddau naturiol.

### 4. Papur Adrodd ar Berfformiad NRW B B 18.18 a Chyflwyniad

17. Cyflwynodd Clare Pillman yr adroddiad, gan nodi'r darlun cyffredinol ar ddiwedd y flwyddyn ynghyd ag uchafbwyntiau. Nodwyd y ffaith fod adrodd yn 2018–19 wedi cael ei newid i fod yn chwarterol, a chyfeiriwyd at y gwaith i wella targedau.

18. Nododd Clare Pillman bwysigrwydd y newid diwylliant a defnyddio rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy i sicrhau'r newid sylweddol.

19. Byddai is-grŵp Cynllunio a Pherfformiad y Bwrdd yn helpu i sicrhau'r targedau cywir, a fyddai'n canolbwyntio ar ganlyniadau a rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, yn ogystal â chael eu hintegreiddio gyda'r gwaith o reoli risgiau. Byddai'r trosglwyddo arfaethedig yn caniatáu ar gyfer gweithredu yn 2018–19.

***Cam gweithredu: Bydd Clare Pillman ac is-grŵp Cynllunio Corfforaethol a'r Bwrdd yn goruchwylio'r gwaith o ddatblygu a chyfathrebu â rhanddeiliaid.***

20. Trafododd y Bwrdd yr angen i ganolbwyntio ar y ffaith fod Cyfoeth Naturiol Cymru yn dylanwadu, yn cyflawni ac yn galluogi. Dylai targedau Cyfoeth Naturiol Cymru gael eu cydgysylltu o'i amgylch, wrth fonitro risgiau strategol, tueddiadau a'r amgylchedd i lywio strategaeth a chynllunio.

***Cam gweithredu: Er mwyn llywio rowndiau cynllunio busnes yn y dyfodol, bydd y Tîm Cynllunio a Pherfformiad yn dechrau datblygu dull sy'n galluogi'r Bwrdd i ddarparu arweiniad strategol ar gyfer cynlluniau busnes blynyddol.***

21. Nododd y Bwrdd ei bod yn dda gweld llwyddiannau'n cael eu rhestru yn yr adroddiad.

22. Gwnaeth y Bwrdd hefyd nodi bod angen i ni roi sylw i gyfleu'r neges gywir.

23. Gwnaeth y Bwrdd groesawu'r adrodd chwarterol a thrafod y ffaith fod yr enghreifftiau cadarnhaol o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru yn ysbrydoli'n fawr iawn.

24. Trafododd y Bwrdd y cam nesaf o rannu'r wybodaeth hon â Llywodraeth Cymru, yn ogystal â'i chyhoeddi o fewn yr Adroddiad Blynyddol ac ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru.

### 5. Papur Diweddariad Cyllid NRW B B 19.18

25. Gwnaeth y Bwrdd graffu ar berfformiad ariannol Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer 2017–18, wedi'i gyflwyno gan Kevin Ingram.

26. Cyfanswm yr incwm oedd £211 miliwn a chyfanswm y gwariant oedd £176.3 miliwn. Felly, cyfanswm ein cyllid yw £34.7 miliwn, a fydd yn cael ei symud ymlaen i 2018–19. Rydym wedi derbyn cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru i gynyddu'r cymorth grant rydym yn symud ymlaen i 22%.

27. Mae union ffigurau'r adroddiad yn agored i gael eu harchwilio ac mae'n bosibl y byddant yn newid ychydig. Roedd y ffigurau cyfredol a gynhwysir yn yr adroddiad yn gywir ar 24 Ebrill 2018.

28. Rhoddodd Kevin Ingram sicrwydd i'r Bwrdd yr adroddir am unrhyw newidiadau ac adolygiad o'r alldro ar ddiwedd y flwyddyn i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ym mis Gorffennaf 2018.

29. Nododd y Bwrdd y newidiadau i gyllideb 2018–19 o ganlyniad i gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru. Cafodd y newidiadau hyn eu cymeradwyo gan Clare Pillman o dan awdurdod dirprwyedig oddi wrth y Bwrdd.

30. Nododd y Bwrdd y cymeradwyaethau a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru.

31. Gofynnwyd i'r Bwrdd adolygu a chymeradwyo Paragraff 18 yr adroddiad ariannol, sef cymeradwyo'r gwaith o ddatblygu ymarfer caffael ar gyfer cyflenwi planhigion dros gyfnod o naw mlynedd gyda gwerth amcangyfrifiedig o £9 miliwn. Daeth y Bwrdd i'r casgliad fod angen gwybodaeth ychwanegol cyn rhoi cymeradwyaeth ffurfiol, a dirprwywyd y mater i is-grŵp Mentergarwch y Bwrdd er mwyn trafod ac adolygu gwybodaeth bellach wrth weithio gyda Kevin Ingram. Gofynnwyd i'r is-grŵp gyflwyno argymhelliad i gyfarfod y Bwrdd ym mis Gorffennaf er mwyn i'r Bwrdd ei ystyried a phenderfynu yn ei gylch.

***Cam gweithredu: Kevin Ingram a'r Pennaeth Caffael i gynnal cyfarfod â'r is-grŵp Mentergarwch i adolygu'r dystiolaeth a ddarparwyd mewn perthynas â'r ymarfer caffael ar gyfer cyflenwi planhigion. Yr is-grŵp i gyflwyno argymhelliad ffurfiol i gyfarfod y Bwrdd ym mis Gorffennaf er mwyn i'r Bwrdd ei ystyried a phenderfynu yn ei gylch.***

## 6. Materion Llywodraethu

### Cofnodion a materion a godwyd o is-bwyllgorau statudol blaenorol ac adroddiadau eraill

32. Mae Cofnodion Cyfarfod y Bwrdd 2018 wedi'u cyhoeddi ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru ac wedi cael eu rhannu â'r Bwrdd er gwybodaeth.

Y Pwyllgor Pobl a Thaliadau Cydnabyddiaeth

33. Ni roddwyd diweddariad ac nid oedd y pwyllgor wedi cyfarfod ers y cyfarfod Bwrdd diwethaf, a nodwyd y cynhelir y cyfarfod pwyllgor nesaf ar 7 Mehefin.

Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg
34. Nid oedd diweddariad gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg gan nad oedd y pwyllgor wedi cwrdd ers y cyfarfod Bwrdd diwethaf. Mae'r cyfarfod nesaf wedi'i drefnu ar gyfer 7 Mehefin.

Grŵp Rheoli Perygl Llifogydd
35. Bu diweddariad byr gan y Grŵp Rheoli Perygl Llifogydd, a rannwyd gan Madeleine Havard, gan drafod y cyfarfod nesaf a oedd wedi'i drefnu ar gyfer 21 Mai, gan nad oedd y pwyllgor wedi cwrdd ers y cyfarfod Bwrdd diwethaf.

Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur
36. Dywedodd Madeleine Havard wrth y Bwrdd y bydd cyfarfod nesaf y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur ar 6 a 7 Mehefin 2018.

Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus
Cadarnhaodd Howard C. Davies fod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi anfon yr holl lythyrau adolygu at y cyrff cyhoeddus ledled Cymru sy'n adolygu cynlluniau llesiant. Cadarnhaodd y cadeirydd ei bod wedi ysgrifennu at Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwahodd i gyfarfod Bwrdd. Diolchodd y Bwrdd i'r is-grŵp a oedd wedi cyfrannu at y gwaith o adolygu'r cynlluniau, yn ogystal ag aelodau o staff Cyfoeth Naturiol Cymru a oedd yn gysylltiedig.

## 7. Unrhyw faterion eraill

37. Gofynnwyd i Annie Payne, Swyddog Cynllunio Busnes a Pherfformiad Cymru ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru, a oedd yn mynychu'r cyfarfod fel sylwedydd, drafod ei chyfraniad at y fenter Ffrindiau Dementia.

38. Cadarnhaodd Annie Payne ei bod wedi sefydlu rhwydwaith Ffrindiau Dementia ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru a darparodd ddiweddariad byr ynglŷn â'r fenter.

39. Mynegodd y Bwrdd ddiddordeb mewn cael rhagor o wybodaeth ac mewn trefnu sesiwn hyfforddi Ffrindiau Dementia. Cadarnhaodd Annie Payne fod cyfleoedd i'r Bwrdd fynychu sesiwn hyfforddi fer neu i aelodau'r Bwrdd fynychu sesiynau mewn swyddfeydd lleol ochr yn ochr â staff Cyfoeth Naturiol Cymru.

***Cam gweithredu: Yr ysgrifenyddiaeth i ystyried sesiwn hyfforddi Ffrindiau Dementia ar gyfer aelodau'r Bwrdd ynghylch gosod agendâu ar gyfer cyfarfodydd Bwrdd y dyfodol, a rhannu dyddiadau'r sesiynau a drefnwyd mewn swyddfeydd lleol ag aelodau'r Bwrdd.***

40. Ceisiodd aelodau'r Bwrdd ragor o wybodaeth am y trefniadau ar gyfer mynychu Sioe Frenhinol Cymru a'r Eisteddfod Genedlaethol.

***Cam gweithredu:Catherine Love i rannu'r cynlluniau cyfredol ag aelodau'r Bwrdd a dechrau trefnu i aelodau'r Bwrdd fynychu'r ddau ddigwyddiad, ar stondin Cyfoeth Naturiol Cymru ac fel rhan o ddigwyddiadau rhanddeiliaid cysylltiedig.***

### 8. Diwedd y Cyfarfod Ffurfiol

40. Daeth y cyfarfod i ben.

### 9. Adolygiadau/sylwadau gan y cyhoedd

41. Derbyniodd y Bwrdd sylw gan Christine Hugh Jones, sef ysgrifennydd yr Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig, sydd wedi gweithio ym meysydd meddygaeth ac anthropoleg gymdeithasol.

42. Gofynnwyd i'r Bwrdd ynghylch y math o ymchwil a gweithgareddau y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cymryd rhan ynddynt sy'n sicrhau bioamrywiaeth planhigion, yn mynd i'r afael â gormod o amonia a nitrogen, ac yn rhoi sylw i ddirywiad peillwyr.

43. Atebodd Ceri Davies y cwestiwn ar ran y Bwrdd, gan ddweud y gall hi barhau â'r drafodaeth fanwl ar ôl y cyfarfod.

44. Tynnodd Ceri Davies sylw at y ffordd roedd y ffaith fod Cyfoeth Naturiol Cymru yn cydnabod newidiadau a phroblemau yn caniatáu iddo roi sylw i'r statws bioamrywiaeth cyfredol ledled Cymru. Mae hefyd yn caniatáu cydnabod lefelau peryglus o gemegion a dirywiad mewn niferoedd peillwyr.

45. Tynnodd Ceri Davies sylw at y ffaith fod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi llofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda'r naw prifysgol yng Nghymru, er mwyn cysylltu ein hymchwil ni yn well ag ymchwil amryw bartneriaid, ac i greu diwylliant lle mae gwybodaeth ac arbenigedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael eu cysylltu â'r hyn mae staff yn ei wneud o ddydd i ddydd. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn canolbwyntio ar gydweithio.

46. Anogodd y Bwrdd aelodau o'r cyhoedd i fanteisio ar y cyfle hwn i gwrdd a sgwrsio â'r tîm i drafod testunau ymhellach.